



Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol



Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol: Adroddiad blynyddol 2021/2022

Rhagair

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf gan y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) – math newydd o gydweithio rhwng rheoleiddwyr, a ddylunnir i ymdrin â heriau'r byd digidol yn y dyfodol.

Mae'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) yn dwyn ynghyd brif reoleiddwyr y DU sy'n gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau digidol:

- yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA),
- yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA),
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ac
- y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom).

Mae'r pedwar corff hyn yn cydweithio'n agosach nag erioed o'r blaen, i ddod â rheoleiddio clir, cyson a chydgyssylltiedig i wasanaethau ac economi ddigidol y DU.

Yn ystod 2021-22, ffurfiodd aelodau'r DRCF gysylltiadau pwerus sy'n newid sut rydym yn ymdrin â rheoleiddio digidol – ar adeg pan fo'r CMA yn archwilio cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol, mae'r FCA yn taclo sgamiau ariannol, mae'r ICO yn diogelu data pobl ac mae Ofcom yn paratoi ar gyfer ei rôl newydd o reoleiddio diogelwch ar-lein.

Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn gan y DRCF yn esbonio sut rydym bellach yn rhannu gwybodaeth a sgiliau fel mater o drefn, yn cyfuno adnoddau ac yn gweithio gyda'n gilydd i nodi tueddiadau a datblygiadau arloesol pwysig yn y diwydiant. Fel y gwelwch drwy'r cynnydd a amlinellir yn yr adroddiad hwn, rydym eisoes yn gweld manteision y cydweithio hwnnw. Er enghraifft, y llynedd, ymgysylltodd Ofcom a'r ICO ar y cyd â diwydiant wrth i Ofcom sefydlu rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos ac wrth i God Dylunio sy'n Briodol i Oedran ICO ddod i rym, gan sicrhau bod cwmnïau'n diogelu data plant ar-lein. Yn yr un modd, datblygodd yr ICO a'r CMA safbwynt ar y cyd ar ddiogelu data a chystadleuaeth.

Mae'r DRCF bellach wedi'i sefydlu'n gadarn. Ym mis Tachwedd 2021, roeddem yn falch iawn o groesawu ein prif weithredwr cyntaf, Gill Whitehead. Mae hi wedi dod ag arweinyddiaeth arbenigol a phrofiad helaeth o'r sectorau ar-lein a'r cyfryngau. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Gill dros y flwyddyn i ddod.

Cadeirydd y DRCF a Phrif Weithredwr Ofcom Y Fonesig Melanie Dawes
Prif Weithredwr CMA Andrea Coscelli

Cyflwyniad

1.1 Ffurfiwyd y DRCF ym mis Gorffennaf 2020 i'n helpu i gyflwyno dulliau mwy effeithlon a chydgysylltiedig o reoleiddio gwasanaethau digidol.¹ Y llynedd, cyhoeddwyd ein cynllun gwaith cyntaf sy'n nodi cynlluniau ar gyfer gwireddu ein nodau a'n huchelgeisiau yn ystod 2021-22.² Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon, bu i ni feithrin cysylltiadau cryfion a chydweithio'n agos â'n gilydd i ddeall yn well anghenion y sectorau rydym yn eu goruchwyllo ac anghenion y bobl rydym yn eu diogelu. Cyflawnwyd hyn drwy rannu gwybodaeth ac arbenigedd a chanolbwyntio ein hymdrechion ar y cyd ar feysydd ffocws penodol. Y llynedd, canolbwyntiwyd ar dri maes blaenoriaeth, a nodwyd yn ein cynllun gwaith ar gyfer 2021-22 fel a ganlyn:

1. **Ymateb yn strategol i ddatblygiadau technolegol ac yn y diwydiant:** Sefydlu prosiectau strategol ar y cyd lle mae ein cydweithrediad yn helpu i ddarparu eglurder i bobl a busnesau.
2. **Dulliau rheoleiddio cydgysylltiedig:** Datblygu ymagweddau at gyflawni canlyniadau rheoleiddio cydlynus lle mae rheoliadau gwahanol yn gorgyffwrdd. Enghraifft o hyn yw ymagwedd y CMA a'r ICO at gymhwyso diogelu data a rheoleiddio cystadleuaeth mewn hysbysebu ar-lein.
3. **Meithrin sgiliau a galluoedd:** Datblygu dulliau ymarferol o rannu gwybodaeth, arbenigedd, galluoedd ac adnoddau, er enghraifft mewn deallusrwydd rhithwir (AI) a dadansoddi data.

1.2 Yn ogystal â'r tri maes blaenoriaeth hyn, cryfhawyd ein hymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid. Nod hynny oedd:

- meithrin eglurder drwy ymgysylltu ar y cyd;
- meithrin gwell cyfathrebu â rheoleiddwyr eraill sydd â chyfrifoldebau digidol; a
- datblygu galluoedd gweithredol y DRCF i sicrhau bod gennym y bobl a'r prosesau cywir i gyflawni yn erbyn ein hamcanion.

1.3 Our cooperation last year meant we were well placed to assist the UK Government and Parliament as they developed reforms to the digital regulator landscape.

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi'i strwythuro o amgylch y blaenoriaethau hyn.

¹ [Lansio'r DRCF ym mis Gorffennaf 2020](#)

² [Cynllun gwaith y DRCF ar gyfer 2021 i 2022](#)

1. Ymateb yn strategol i ddatblygiadau technolegol ac yn y diwydiant

1.5 Yn 2021-22 canolbwyntiwyd ar osod y sylfeini ar gyfer cydweithredu effeithiol a chydgyssylltiedig. Trwy'r DRCF, crëwyd timau traws-reoleiddio unigol i rannu gwybodaeth a datblygu safbwyntiau ar y cyd ar faterion digidol cymhleth. Gwnaethom flaenoriaethu'r pedwar tueddiad a thechnoleg ddigidol a ganlyn:

- prosesu algorithmig;
- fframweithiau dylunio;
- technolegau hysbysebu digidol; ac
- amgryptio o un pen i'r llall.

Mae ein cynnydd ym mhob un o'r meysydd hyn wedi'i nodi isod.

Prosesu algorithmig

1.6 Mae algorithmau yn rhan annatod o'r rhyngrwyd ac yn elfen hanfodol o arloesedd digidol. Fel rheoleiddwyr gwasanaethau digidol, mae'n bwysig deall sut a ble mae prosesu algorithmig yn cael ei ddefnyddio, a'r manteision a'r niwed a ddaw yn eu sgil i bobl a chymdeithas. Ein nod felly oedd cryfhau ein dealltwriaeth ar y cyd o systemau algorithmig, a'n harbenigedd ynddynt.

1.7 Eleni, cynhaliwyd mwy nag 20 o ddigwyddiadau gydag academyddion, diwydiant a Llywodraeth y DU i glywed amrywiaeth o safbwyntiau ar brosesu algorithmig.

1.8 Yn dilyn yr ymgysylltu hwn, ar 28 Ebrill 2022 cyhoeddwyd ein canfyddiadau mewn dau bapur.³ Nododd y papurau hyn fanteision ac anfanteision prosesu algorithmig a'n dealltwriaeth o'r cyd-destun archwilio algorithmig presennol. Mae'r papur cyntaf yn ystyried:

- amcanion a heriau a rennir;
- meysydd o ddiddordeb ar y cyd; a
- lle mae ymagwedd ar y cyd at ddefnyddio egwyddorion ac offer rheoleiddio'n fuddiol.

1.9 Mae'r ail bapur yn canolbwyntio ar archwilio algorithmig (gweler Fframio archwilio algorithmig isod). Mae'n esbonio sut mae'r archwiliadau hyn yn gweithio'n ymarferol, cyflwr y farchnad, a'r rolau posib i reoleiddwyr yn y gofod hwn.

³ [Manteision a niwed algorithmau: persbectif a rennir gan y 4 rheoleiddiwr digidol](#), DRCF 28 Ebrill 2022; ac [Archwilio algorithmau: y dirwedd gyfredol, rôl rheoleiddwyr a'r rhagolwg ar gyfer y dyfodol](#), DRCF 28 Ebrill 2022.

Fframio archwilio algorithmig

Dros y 12 mis diwethaf, bu i ni siarad â rhanddeiliaid o ddiwydiant, y byd academiaidd, cymdeithas sifil a Llywodraeth y DU ynghylch sut i archwilio systemau algorithmig yn effeithiol.

Cawsom wybod nad oes un dull archwilio unigol. Mae natur archwiliad priodol yn amrywio fesul achos. Mae'n dibynnu ar:

- natur y niwed posib;
- y model busnes;
- y bobl yr effeithir arnynt;
- cyd-destun sut mae sefydliadau'n datblygu ac yn gweithredu'r algorithm; a'r
- amgylchedd rheoleiddio perthnasol.

Yn ein papur ar 'Archwilio Algorithmig', cynigiwyd fframwaith ar gyfer meddwl am wahanol fathau o archwilio. Mae'r fframwaith hefyd yn trafod capasiti a gallu sefydliadau i gynnal y fath archwiliadau ac yn ymchwilio i pryd y gallai gwahanol fathau o archwiliadau fod yn fwyaf priodol. Dyma'r mathau o archwiliadau:

- **Archwiliad llywodraethu:** Asesu a yw'r sefydliad wedi dilyn y polisiau llywodraethu cywir, er enghraifft drwy adolygu asesiadau effaith, prosesau goruchwyllo neu asesiadau cydymffurfio.
- **Archwiliad empirig:** Mesur effaith algorithm gan ddefnyddio mewnbynnau, allbynnau, neu'r ddau. Er enghraifft, drwy 'grafu', 'siopa dirgel' neu dechnegau blwch du eraill.
- **Archwiliad technegol:** Edrych 'o dan foned' algorithm ar ddata, cod ffynhonnell neu fethodoleg. Er enghraifft, adolygu cod, profion perfformiad cadarn neu ddilysu ffurfiol.

Fframweithiau dylunio

1.10 Rydym am hyrwyddo sicrwydd rheoleiddio ar gyfer cwmnïau a hyrwyddo ymddiriedaeth defnyddwyr mewn gwasanaethau digidol. Ein ffocws oedd nodi'r materion cyffredinol o ran fframweithiau dylunio⁴, yng nghyd-destun ein priod gylchoedd gwaith rheoleiddio a'n sectorau drwy rannu gwybodaeth yn fewnol. Cynhaliwyd cyfres o weithdai rhwng aelodau'r DRCF er mwyn deall yn well yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol ar draws gwahanol fframweithiau dylunio a'u heffaith bosib ar ein cylchoedd gwaith rheoleiddio.

⁴ Mae fframweithiau dylunio rheoleiddio yn annog cwmnïau i gynnwys canlyniadau sy'n llesol i ddefnyddwyr ar y pwynt dylunio. Mae enghreifftiau o fframweithiau dylunio cyfredol a photensial yn cynnwys diogelwch drwy ddylunio, preifatrwydd drwy ddylunio, a thegwch drwy ddylunio. Yn y dyfodol, efallai y bydd angen i gwmnïau gydymffurfio â fframweithiau dylunio lluosog wrth ddylunio cynhyrchion a gwasanaethau digidol.

Technolegau hysbysebu digidol

1.11 Defnyddir technolegau hysbysebu digidol i ddarparu hysbysebion ar-lein, gan gynnwys hysbysebion wedi'u personoli a'u targedu. Mae eu defnydd yn galluogi i rai gwasanaethau gael eu darparu am ddim i ddefnyddwyr y DU ar y pwynt defnyddio. Fodd bynnag, mae'r technolegau hyn hefyd yn cynnig ystod eang o risgiau a niwed posib, o bryderon ynghylch preifatrwydd i dwyll.

1.12 Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig i ni weithio ar y cyd i ddeall yn well y technolegau sy'n sail i hysbysebu digidol a deall yn fwy cyfannol sut mae'r sector hysbysebu digidol yn rhyngweithio â hawliau pobl.

1.13 Yn ystod 2021-22, parhaodd y CMA a'r ICO i gynnal ymchwiliadau o dan eu priod swyddogaethau, gan gynnwys ymchwiliad⁵ Blwch Tywod Preifatrwydd Google y CMA a gwaith yr ICO ar adtech.⁶ Ochr yn ochr â'r gweithgareddau hyn, bu i ni ddatblygu ein nod o feithrin dealltwriaeth ar y cyd drwy gynnal tri gweithdy mewnol a sefydlu fforwm mewnol o arbenigwyr i hysbysu ei gilydd am ddatblygiadau.

1.14 At hynny, gweithiodd y CMA ac Ofcom ar y cyd yn ystod y flwyddyn i ddarparu cyngor i Lywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2021. Ystyriodd y cyngor hwn sut y gallai cod ymddygiad fod yn berthnasol i'r berthynas fasnachol rhwng llwyfannau a chyhoeddwyr, gan gynnwys mewn perthynas â hysbysebu digidol. Galwodd y cyngor hwn ar wybodaeth arbenigwyr o fewn fforwm technolegau hysbysebu digidol y DRCF (gweler Cefnogi Llywodraeth a Senedd y DU isod).

Amgryptio o un pen i'r llall

1.15 Mae technolegau amgryptio wedi'u hymwreiddio fwyfwy mewn amrywiaeth o wasanaethau ar-lein. Mae'r rhain yn darparu lefelau uchel o ddiogelwch ac amddiffyniad preifatrwydd i ddefnyddwyr ond yn lleihau tryloywder y gwasanaethau a ddefnyddir. Mae'n bwysig i reoleiddwyr ein bod yn gweithio ar y cyd i ddeall manteision a heriau'r dechnoleg hon.

1.16 Adeiladodd ein gwaith ar y cyd ar amgryptio o'r dechrau i'r diwedd yn ystod 2021-22 ar waith presennol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom. Roedd hyn yn cynnwys ystyriaeth yr ICO ar faterion preifatrwydd cysylltiedig a gwaith Ofcom ar negeseua a galwadau ar-lein. Ein ffocws oedd datblygu dealltwriaeth ar y cyd o oblygiadau amgryptio o un pen i'r llall ar gyfer defnyddwyr, diwydiant a chymuned reoleiddio y DU. Gwnaethom ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid arbenigol a diwydiant i geisio eu barn a chynhaliwyd trafodaethau bord gron allanol i nodi pryderon allweddol.

Sganio'r gorwel

1.17 Mae sganio'r gorwel yn allweddol i'n gallu i ddeall technolegau sy'n dod i'r amlwg a nodi risgiau a heriau o ran rheoleiddio yn y dyfodol. Mae gwneud hyn ar y cyd yn ein helpu i rannu arbenigedd a chyflymu ein gwaith adeiladu gwybodaeth mewn meysydd pwnc sy'n newydd neu'n datblygu ar garlam.

⁵ [Ymchwiliad y CMA i newidiadau porwr 'Blwch Tywod Preifatrwydd' Google](#)

⁶ [Gwaith yr ICO ar adtech](#)

1.18 Ym mis Tachwedd 2021, lansiwyd rhaglen sganio'r gorwel ar y cyd i bontio bylchau yn ein gweithgarwch sganio'r gorwel.⁷ Adeiladodd hyn ar raglenni sganio'r gorwel yr holl reoleiddwyr. Bydd y rhaglen hon yn ein helpu i ddatblygu gwybodaeth am feysydd arloesi cyflym a chydgysylltu ar ymgysylltu drwy ddigwyddiadau allanol.

1.19 Fel y nodwyd yn ein papur polisi 'Cydgysylltu ar dechnolegau'r dyfodol' ym mis Tachwedd 2021, mae gennym dair blaenoriaeth gychwynnol:

- coladu ymchwil;
- Ymgysylltu ar y cyd â busnesau bach a chanolig yn y DU, busnesau technoleg newydd a'r byd academiaidd; a
- chyflymu ein gwaith adeiladu gwybodaeth drwy symposia.

1.20 Ym mis Mawrth 2022, crëwyd porth ymchwil y marchnadoedd digidol (gweler isod), a ddaeth â'r amrywiaeth o ymchwil ddigidol yr aelodau o DRCF at ei gilydd i'n helpu ni, a rhanddeiliaid ehangach, i gael mynediad i wybodaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen ymchwil bellach.

1.21 Ar 5 Ebrill cynhaliwyd y cyntaf o gyfres o sesiynau ymgysylltu â busnesau bach a chanolig, busnesau newydd a'r byd academiaidd ym Manceinion, gan ganolbwyntio ar dechnoleg seiber ac ariannol.

Porth ymchwil marchnadoedd digidol y DRCF

Mae ein porth ymchwil marchnadoedd digidol, a lansiwyd ym mis Mawrth 2022, yn dwyn ynghyd dros 80 darn o ymchwil ddigidol ddiweddar o wyth corff rheoleiddio.⁸ Y rhain yw:

- aelodau'r DRCF;
- y Swyddfa Eiddo Deallusol;
- Banc Lloegr;
- yr Awdurdod Safonau Hysbysebu; a'r
- Comisiwn Hapchwarae.

Daethom â detholiad wedi'i guradu o ymchwil mwyaf craff a pherthnasol rheoleiddwyr at ei gilydd am farchnadoedd digidol a'r technolegau sy'n dod i'r amlwg sy'n sail i'w datblygiad. Bydd hyn yn ein helpu i feithrin ein gwybodaeth ac i gyfeirio ein rhaglen ymchwil barhaus a'n blaenoriaethau ar y cyd.

Mae'r corff hwn o ymchwil yn hawdd ei ddarganfod ac yn gwbl hygyrch mewn un lle. Gobeithiwn y bydd hyn yn galluogi'r rhai sydd â diddordeb mewn cyfrannu at ddealltwriaeth well o farchnadoedd digidol a dyfodol rheoleiddio digidol y DU.

Rydym yn bwriadu i'r corff hwn o ymchwil dyfu dros amser, ac i ddiweddarau'r porth ei hun wrth ymateb i adborth.

⁷ DRCF, [Cydgysylltu ynghylch technolegau'r dyfodol: Rhaglen sganio'r gorwel technoleg y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol](#), Tachwedd 2021

⁸ [Porth ymchwil marchnadoedd digidol y DRCF](#)

2. Dulliau cydgysylltiedig

2.1 Mae natur gwasanaethau digidol yn golygu bod problemau a niwed i ddefnyddwyr yn aml yn rhyngweithio â mwy nag un gyfundrefn reoleiddio ar unrhyw adeg benodol. Er enghraifft, mae cynigion blwch tywod preifatrwydd Google⁹ i dynnu cwcis trydydd parti o Chrome, a'u disodli â datrysiadau amgen o fewn y porwr, yn ymateb i bryderon diogelu data ynghylch tracio defnyddwyr. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd effeithiau ehangach ar gystadleuaeth a defnyddwyr.

2.2 Trwy'r DRCF rydym yn sicrhau bod pob un o'n cyfundrefnau rheoleiddio yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn ymarferol. Y llynedd, canolbwyntiwyd ar dri maes:

- ymagwedd gydgysylltiedig at ymdrin â'r rhyngweithio rhwng diogelu data a chystadleuaeth, yn enwedig hysbysebu.
- edrych ar y rhyngweithio rhwng y drefn Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP) a'r Cod Dylunio Sy'n Briodol i Oedran (AADC),
- ystyried y rhyngweithio ehangach yn y dirwedd rheoleiddio digidol.

Rydym yn nodi ein cynnydd allweddol ym mhob un o'r meysydd hyn isod.

Diogelu data a rheoleiddio cystadleuaeth

2.3 Roedd y ffrwd waith hon yn cynnwys cyfnewidiad polisi dwyochrog parhaus rhwng y CMA a'r ICO a fu'n ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng cystadleuaeth a diogelu data. Adeiladodd y gwaith hwn ar gydweithrediad y CMA a'r ICO fel rhan o astudiaeth farchnad y CMA i lwyfannau ar-lein a hysbysebu digidol a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2021.¹⁰

2.4 Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd y CMA a'r ICO ddatganiad ar y cyd ar gystadleuaeth a chyfraith diogelu data (Y Datganiad CMA/ICO ar y Cyd').¹¹ Nododd hwn eu barn a rennir ar y berthynas rhwng cystadleuaeth a diogelu data. Mae'r datganiad yn esbonio sut mae'r rheoleiddwyr yn bwriadu gweithio ar y cyd i fwyafu'r synergeddau a goresgyn y tensiynau presennol rhwng y ddau amcan polisi hyn. Mae'r ddau reoleiddiwr yn parhau i ddefnyddio'r datganiad hwn i gyfeirio eu gwaith.

2.5 Cyhoeddodd yr ICO Farn y Comisiynydd Gwybodaeth hefyd ar y disgwyliadau diogelu data ar gyfer cynigion hysbysebu ar-lein ym mis Tachwedd 2021.¹² Nod hyn oedd rhoi arweiniad i gyfranogwyr y diwydiant sy'n datblygu dewisiadau amgen newydd i gwcis trydydd parti. Roedd y Farn yn cydnabod y synergeddau cryfion rhwng amcanion cystadleuaeth a diogelu data. Atgyfnerthodd y farn nad oes modd i'r amcanion gael eu 'cyfnewid' un am y llall.

2.6 Cydweithiodd y CMA a'r ICO yn agos i ddeall, adolygu a chyfeirio'r gwaith o ddatblygu cynigion Blwch Tywod Preifatrwydd Google (gweler Blwch Tywod Preifatrwydd Google isod). Nod y cydweithio hwn oedd cyrraedd canlyniad sy'n diogelu cystadleuaeth mewn hysbysebu digidol, ar yr un pryd â chynnal hawliau diogelu data defnyddwyr. Rydym yn parhau i gydweithredu wrth i'r cynigion hyn esblygu. Rydym hefyd yn gweithio ar brosiectau eraill fel Astudiaeth Farchnad

⁹ [Blwch tywod preifatrwydd Google](#)

¹⁰ [Llwyfannau ar-lein ac astudiaeth o'r farchnad hysbysebu digidol](#)

¹¹ [Datganiad ar y cyd y CMA a'r ICO ar gyfraith cystadleuaeth a diogelu data](#), Mai 2021

¹² [Barn Comisiynydd Gwybodaeth yr ICO ar ddiogelu data mewn hysbysebu](#), Tachwedd 2021

Ecosystemau Symudol y CMA, yn ogystal â chefnogi Llywodraeth y DU wrth iddi ystyried diwygiadau deddfwriaethol i'r cyfundrefnau cystadleuaeth a diogelu data.

Blwch Tywod Preifatrwydd Google

Ym mis Awst 2019, cyhoeddodd Google ei fwrriad i ddileu nodweddion cwcis trydydd parti a nodweddion eraill o'i borwr Chrome. Eu nod oedd disodli'r nodweddion gydag ystod o offer, y cyfeirir atynt ar y cyd fel 'y cynigion blwch tywod preifatrwydd'.

Gan ddilyn astudiaeth farchnad y CMA i lwyfannau ar-lein a hysbysebu digidol, sefydlodd y CMA a'r ICO raglen o ymgysylltu ynghylch polisi. Galwodd y trafodaethau hyn ar ddealltwriaeth a phrofiad cyffredinol y rheoleiddwyr o'r ecosystem technoleg hysbysebu. Bu iddynt hefyd drafod goblygiadau posib y blwch tywod preifatrwydd ar gyfer y farchnad ym mhob un o'u cyfrifoldebau rheoleiddio. Bwriad datganedig Google wrth ddatblygu'r technolegau hyn yw gwneud y we yn fwy preifat a diogel i ddefnyddwyr, a chefnogi cyhoeddwyr ar yr un pryd. Er hynny, mae perygl hefyd y gallai'r newidiadau hyn niweidio cystadleuaeth yn y farchnad hysbysebu digidol.

Bu i'r ymgysylltiad polisi hwn gyfeirio ymchwiliad Deddf Cystadleuaeth y CMA i gynigion Blwch Tywod Preifatrwydd Google a ddechreuwyd ym mis Ionawr 2021. Bu iddo hefyd gyfeirio Datganiad ar y Cyd y CMA/ICO a gyhoeddwyd, a Barn y Comisiynydd Gwybodaeth ar eu disgwyliadau o ran diogelu data ar gyfer cynigion hysbysebu ar-lein a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2021.¹³ Mae'r gwaith polisi a chyhoeddiadau yn cyd-fynd ag ymrwymadau cyfreithiol rwymol y CMA a dderbyniodd gan Google ym mis Chwefror 2022, gan sefydlu rôl barhaus i'r CMA a'r ICO wrth oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r offer Blwch Tywod Preifatrwydd.¹⁴

Dangoswyd gwerth yr ymgysylltiad polisi agos parhaus rhwng y CMA a'r ICO yn dda yn yr ymchwiliad hwn. Roedd yn galluogi ystyriaeth ar y cyd o fanteision preifatrwydd posib datblygiad arloesol gan y diwydiant ar gyfer defnyddwyr, yn ogystal â'r effeithiau negyddol posib y gallai'r datblygiad hwnnw eu cael ar gystadleuaeth ar gyfer cyfranogwyr yn y farchnad.

Y Cod Dylunio Oedran-Briodol (AADC) a rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos

2.7 Adeiladodd ein gwaith yn 2021-2022 ar gydweithrediad presennol yr ICO ac Ofcom ar ddiogelwch ar-lein, gan ddilyn cyflwyno Cod Dylunio Priodol i Oedran yr ICO (AADC) a rheoleiddio Ofcom ar lwyfannau rhannu fideos (VSP) a sefydlir yn y DU. Cynhaliwyd gweithdai ar y cyd â'r Ganolfan Arweinyddiaeth Polisi Gwybodaeth (CIPL) a TechUK i ymdrin â diddordeb y diwydiant yn y pethau sy'n wahanol ac yn debyg rhwng y cyfundrefnau newydd hyn. Bu i ni weithio ar y cyd i ddatblygu arweiniad priodol, megis arweiniad Ofcom i VSP¹⁵ a Barn yr ICO ar ddefnyddio technolegau sicrwydd oedran¹⁶. Rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil ar y cyd i gywain barn plant a rhieni ar sicrwydd oedran ar-lein, sydd i'w gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2022.

¹³ [Disgwyliadau diogelu data a phreifatrwydd ar gyfer cynigion hysbysebu ar-lein](#)

¹⁴ [CMA yn sicrhau ymrwymadau Blwch Tywod Preifatrwydd terfynol gan Google](#)

¹⁵ [Arweiniad Ofcom ar gyfer llwyfannau rhannu fideos ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol](#), Mehefin 2021

¹⁶ [Barn Comisiynydd Gwybodaeth yr ICO ar Sicrwydd Oedran ar gyfer y Cod Plant](#), Hydref 2021

Rhyngweithio yn y dirwedd rheoleiddio digidol ehangach

2.8 Yn ogystal â chydweithredu ymysg ei aelodau, mae'r DRCF hefyd wedi bod yn weithgar wrth ymgysylltu â rheoleiddwyr eraill sydd â diddordeb mewn rheoleiddio gwasanaethau digidol.

2.9 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu i ni ymgysylltu â rheoleiddwyr y tu allan i aelodaeth y DRCF drwy ein bord gron chwarterol i reoleiddwyr, sy'n cynnwys grŵp amrywiol o reoleiddwyr yn y DU â diddordeb mewn materion digidol.¹⁷ Ers ei lansio ym mis Medi 2021, rydym wedi cynnal tair bord gron i reoleiddwyr.

2.10 Mae'r ford gron i reoleiddwyr yn ein helpu i feithrin ein dealltwriaeth o flaenoriaethau a phrofiadau rheoleiddwyr y tu allan i'r DRCF a nodi synergeddau posib â'n blaenoriaethau. Mae'r cynrychiolwyr yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gan eu sefydliadau ac yn darparu barn ar weithgareddau'r DRCF, gan gynnwys datblygu cynllun gwaith y DRCF ar gyfer 2022-23. Eleni, cyfrannodd rhai aelodau eu hymchwil ddigidol hefyd at borth ymchwil marchnadoedd digidol newydd y DRCF.

2.11 Rydym hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i drafod meysydd sydd o ddiddordeb cydfuddiannol. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith sganio'r gorwel. Bu hefyd i ni rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gweithgareddau gyda Rhwydwaith Cystadleuaeth y DU.

3. Meithrin sgiliau a galluoedd

3.1 Er mwyn rheoleiddio gwasanaethau digidol yn effeithiol, mae angen i aelodau'r DRCF allu datblygu a chadw pobl sydd â'r arbenigedd a'r sgiliau angenrheidiol yn y meysydd hyn. Y llynedd, ein hamcan oedd nodi, blaenoriaethu a ffocysu ar ddarparu sgiliau a galluoedd a rennir. Aethom ati i wneud hyn drwy gyfres o weithdai rhwng aelodau'r timau pobl a pholisi ar draws yr asiantaethau sy'n aelodau. Roedd ein hallbynnau'n cynnwys datblygu cynlluniau gwaith manwl yn disgrifio ein hymagwedd at gyflawni'r pedair blaenoriaeth isod ar gyfer 2022-23:

- recriwtio;
- graddedigion, gyrfaoedd cynnar ac allgymorth;
- meithrin sgiliau rheoleiddio digidol; a
- denu talent.

4. Cynyddu eglurder drwy ymgysylltu ar y cyd

4.1 Un o amcanion pwysicaf y DRCF yw ei gwneud yn haws ymgysylltu â sefydliadau eraill, yn y DU a thramor, gan sicrhau dull cydgysylltiedig o ymgysylltu. Yn ogystal â'r gwaith ymgysylltu allanol a gyflawnwyd fel rhan o'n gwaith prosiect a amlinellir uchod, ymgwymerodd cynrychiolwyr ysgrifenyddiaeth y DRCF ag amrywiaeth o ymgysylltu allanol hefyd.

4.2 Roedd hyn yn cynnwys:

- cyfrannu at dri digwyddiad panel y DRCF, gan gynnwys digwyddiad panel Prif Weithredwyr DRCF ym mis Gorffennaf a drefnwyd gan Global Counsel (UK Digital Regulation: Perspectives

¹⁷ Mynychir y ford gron chwarterol gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu, Banc Lloegr, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, y Comisiwn Etholiadol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Comisiwn Hapchwarae, y Swyddfa Eiddo Deallusol a'r Rheoleiddiwr Systemau Talu.

from the leaders of the CMA, FCA, ICO and Ofcom)¹⁸, sesiwn panel cyfarwyddwyr DRCF yng Ngŵyl Ddigidol Leeds ym mis Hydref (Digital Regulation: A coordinated approach)¹⁹, a Fforwm Technoleg y Dyfodol DCMS²⁰, yn ogystal â dau ddigwyddiad a drefnwyd gan yr ICO ac Ofcom ar y rhyngweithio rhwng y gyfundrefn llwyfannau rhannu fideos a'r Cod Dylunio Sy'n Briodol i Oedran;

- cyfarfod â chymheiriaid rhyngwladol - gan gynnwys y Swyddfa Comisiynydd Preifatrwydd, Canada; Awdurdod yr Iseldiroedd ar gyfer Defnyddwyr a Marchnadoedd a Chomisiwn Cystadleuaeth a Defnyddwyr Awstralia - i rannu gwybodaeth a thrafod ymagweddau arfer gorau at reoleiddio digidol. Roedd hyn yn cynnwys rhannu ein profiad o weithio ar y cyd ar draws y rheoleiddwyr. Ers hynny, mae'r Iseldiroedd ac Awstralia wedi cyhoeddi y byddant yn ffurfio fforymau rheoleiddio sy'n debyg i'r DRCF²¹; ac
- ymgysylltu â'r diwydiant technoleg i gyflwyno Prif Weithredwr newydd y DRCF ac i gywain adborth i gyfeirio cynllun gwaith y DRCF ar gyfer 2022-23. Rydym hefyd yn cyfarfod â chyrff y diwydiant, megis y Swyddfa Hysbysebu ar y Rhyngwrwd a'r Gymdeithas Cyhoeddwr Proffesiynol, i esbonio nodau a gweithgareddau'r DRCF.

5. Datblygiad y DRCF

5.1 Ein ffocws ar gyfer blwyddyn y cynllun gwaith gyntaf hwn oedd greu sylfeini cadarn ar gyfer y DRCF. Fel rhan o hyn, bu i ni benodi Prif Weithredwr, ehangu'r tîm craidd, ffurfioli llywodraethiant y DRCF a'i brosiectau gan gynnwys datblygu Memorandwm o Ddealltwriaeth diwygiedig²² rhwng yr ICO a'r CMA a sefydlu'r strwythurau allweddol sydd eu hangen i sicrhau y cyflawnir nodau'r DRCF yn llwyddiannus.

5.2 Yn ystod y flwyddyn, dangoswyd hefyd ein hymrwymiad i gefnogi Llywodraeth a Senedd y DU wrth iddynt ddatblygu diwygiadau i'r dirwedd rheoleiddio digidol. Mae'r DRCF mewn sefyllfa dda i ddarparu cyngor arbenigol ynglŷn â sut y gall rheoleiddwyr weithio ar y cyd i gyflawni canlyniadau cydynus. Eleni, bu i ni ddarparu mewnbyn ysgrifenedig i Lywodraeth y DU a rhoi tystiolaeth i'r Senedd, fel y nodir isod.

¹⁸ [UK Digital Regulation: perspectives from the leaders of the CMA, FCA, ICO and Ofcom](#)

¹⁹ [Digital Regulation: a coordinated approach to overseeing modern digital markets](#)

²⁰ [Fforwm Technoleg y Dyfodol - Datganiad y Cadeiryddion, Llundain](#)

²¹ Awdurdod Diogelu Data'r Iseldiroedd, [Dutch regulators strengthen oversight of digital activities by intensifying cooperation](#), Hydref 2021. Comisiwn cystadleuaeth a defnyddwyr Awstralia, [Agencies form Digital Platform Regulators Forum](#), Mawrth 2022.

²² [Memorandwm o Ddealltwriaeth diwygiedig rhwng y CMA a'r ICO.](#)

Cefnogi Llywodraeth a Senedd y DU

Amlinellodd ein cynllun gwaith ein hymrwymiad i gefnogi diwygiadau Llywodraeth y DU sy'n creu economi ddigidol fwy cynhwysol ac arloesol. Ym mis Tachwedd 2020, gofynnodd Llywodraeth y DU i'r CMA, yr ICO ac Ofcom am fewnbynnau ynghylch a oedd angen mesurau pellach arnom i gefnogi cydweithredu rhwng rheoleiddwyr digidol. Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd y tri rheoleiddiwr ymateb ar y cyd.²³ Mae'n disgrifio sut y gall cymorth deddfwriaethol priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth a dyletswyddau rheoleiddwyr gynorthwyo cydweithredu rhwng rheoleiddwyr ar faterion digidol.

Ym mis Ebrill 2021, gofynnodd Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i'r CMA weithio gydag Ofcom i edrych yn benodol ar sut y byddai cod ymddygiad, a gynigiwyd fel rhan o'r gyfundrefn newydd o blaid cystadlu ar gyfer marchnadoedd digidol, yn llywodraethu'r berthynas rhwng llwyfannau a darparwyr cynnwys fel cyhoeddwyr newyddion.²⁴ Nod y cod hwn oedd sicrhau bod y telerau y mae llwyfannau a chyhoeddwyr yn masnachu arnynt yn deg ac yn rhesymol. Rhoddodd y CMA ac Ofcom y cyngor hwn i DCMS ym mis Tachwedd 2021, a disgwylir i DCMS gyhoeddi'r cyngor hwn maes o law.

Ym mis Tachwedd 2021, bu i ni ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor Cyfathrebiadau a Digidol Tŷ'r Arglwyddi i Reoleiddio Digidol.²⁵²⁶ Bu i ni gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r DRCF ers cyhoeddi cynllun gwaith cyntaf y DRCF ym mis Mawrth 2021, yn ogystal â rhagor o wybodaeth am ddatblygiad y DRCF.

²³ [Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol: Ymwreiddio cydlynad a chydweithrediad yn adeiladwaith rheoleiddwyr digidol](#)

²⁴ [New watchdog to boost online competition launches](#)

²⁵ [Tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor Cyfathrebu a Digidol Tŷ'r Arglwyddi i waith rheoleiddwyr digidol](#)

²⁶ [Pwyllgor Cyfathrebu a Digidol Tŷ'r Arglwyddi Tystiolaeth lafar wedi'i chywiro: Rheoleiddio digidol](#)